Comisiynydd Heddlu a Throseddu
Dyfed-Powys
Police and Crime Commissioner

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg yn ogystal â Saesneg.

This document is available in Welsh as well as English.

**Ymateb Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys i:**

**Archwiliad AHGTAEF o effeithiolrwydd ymateb heddluoedd a chyrff gorfodi'r gyfraith i grwpiau'n camfanteisio'n rhywiol ar blant: Adroddiad cynnydd**

Rwy'n cydnabod yr argymhellion a amlinellir yn yr adroddiad hwn a byddaf yn monitro cynnydd yr Heddlu o ran eu gweithredu. Trafodwyd ymateb yr Heddlu i'r archwiliad hwn mewn cyfarfod o'r Bwrdd Plismona ar 26 Tachwedd 2025. Dyma'r fforwm lle'r wyf yn dal y Prif Gwnstabl i gyfrif am gyflenwi gwasanaethau plismona ar draws ardal Dyfed-Powys.

Mae'r archwiliad AHGTAEF hwn i effeithiolrwydd ymateb heddluoedd a chyrff gorfodi'r gyfraith i grwpiau'n camfanteisio'n rhywiol ar blant yn adeiladu ar ganfyddiadau'r Archwiliad Annibynnol i Gam-drin Plant yn Rhywiol a methiannau hanesyddol yn Rotheram, Rochdale a Swydd Rydychen; a chynnydd a wnaed ar archwiliad cychwynnol ac argymhellion AHGTAEF o 2023.

Mae Heddlu Dyfed-Powys eisoes wedi mabwysiadu diffiniad Ymchwiliad Annibynnol i Gam-drin Plant yn Rhywiol, fel y pwysleisiwyd yn adroddiad 2023, ac wedi fy sicrhau bod yr holl argymhellion/meysydd ar gyfer gwella o'r un adroddiad wedi'u cwblhau a'u cymeradwyo yn awr. Yr wyf wedi fy sicrhau gan ymrwymiad Heddlu Dyfed-Powys tuag at ddileu iaith sy'n beio'r dioddefydd, a'r ffordd mae'r heddlu'n gweithio gydag asiantaethau partner ar faterion sy'n ymwneud â diogelu plant, gan gynnwys grwpiau'n camfanteisio'n rhywiol ar blant.

Rwy'n croesawu'r argymhellion ar gyfer cyrff cenedlaethol (argymhellion 3 a 5) i wella cysondeb a safon casglu data o fewn systemau rheoli cofnodion yr heddlu. Bydd gwella cywirdeb ac effeithlonrwydd y data hwn drwy ganllawiau a arweinir yn genedlaethol yn cefnogi sicrhau ymddiriedaeth ein cymunedau.

Nodaf isod fy meddyliau a'r sicrwydd rwyf wedi derbyn gan y Prif Gwnstabl mewn perthynas â'r argymhellion ar gyfer Heddluoedd o fewn yr adroddiad.

**Argymhelliad 1: Erbyn 31 Mawrth 2026, dylai'r Swyddfa Gartref, yr Adran Addysg, a phob heddlu a chorff gorfodi'r gyfraith sydd heb wneud eisoes fabwysiadu diffiniad yr Ymchwiliad Annibynnol i Gam-drin Plant yn Rhywiol o 'rwydwaith drefnedig' fel diffiniad o grŵp yn camfanteisio'n rhywiol ar blant, a dylent sicrhau eu bod**

**nhw’n defnyddio’r diffiniad hwn ym mhob canllaw, gweithdrefn, cynnyrch hyfforddi a pholisi perthnasol.**

Yr wyf wedi fy sicrhau bod Heddlu Dyfed-Powys yn adolygu ei Bolisi Camfanteisio’n flynyddol, a bod yr heddlu’n bwriadu ychwanegu’r diffiniad fel yr amlinellir o fewn yr adroddiad cynnydd a’r argymhelliad hwn. Mae Heddlu Dyfed-Powys hefyd wedi fy sicrhau bod y diffiniad hwn eisoes wedi’i fabwysiadu mewn prosesau gweithredol mewn perthynas â cham-drin plant a chamfanteisio ar blant.

**Argymhelliad 2: Erbyn 31 Mawrth 2026, dylai pob heddlu fabwysiadu a defnyddio templed proffil problemus camfanteisio’n rhywiol ar blant Rhaglen Hydrant o leiaf wrth baratoi eu proffiliau problemus camfanteisio’n rhywiol ar blant ar gyfer 2025/26.**

Mae’r Prif Gwnstabl wedi fy sicrhau bod Heddlu Dyfed-Powys yn bwriadu defnyddio’r templed hwn wrth baratoi’r proffil problemus blynyddol nesaf.

**Argymhelliad 4: Erbyn 31 Gorffennaf 2026, dylai pob prif gwnstabl ddefnyddio canllawiau Rhaglen Hydrant fel bod heddluoedd yn medru nodi camfanteisio’n rhywiol ar blant a chamfanteisio’n rhywiol ar blant gan grwpiau yn effeithlon a chywir yn eu systemau rheoli cofnodion heddlu.**

Tra bod yr argymhelliad hwn yn dibynnu ar ganllawiau Rhaglen Hydrant yn cael eu rhyddhau (argymhelliad 3 yr adroddiad cynnydd gan AHGTAEF), rwy’n hydrus bod Heddlu Dyfed-Powys eisoes yn adnabod dioddefwyr a throseddwyr ar ei system rheoli cofnodion yn y cyfamser.

**Argymhelliad 6: Erbyn 31 Gorffennaf 2026, dylai pob heddlu lunio strategaeth i weithredu Ymgyrch Makesafe yn gyson a chynnwys hyn yn eu datganiadau data camfanteisio’n rhywiol ar blant i’r Rhaglen Hydrant. Dylai’r strategaeth hon gynnwys mabwysiadu a defnyddio deunydd marchnata heddluoedd a phartneriaid Ymgyrch Makesafe wedi’i ail-frandio.**

Yr wyf wedi fy sicrhau y bydd Heddlu Dyfed-Powys yn bodloni’r argymhelliad hwn erbyn 31 Gorffennaf 2026.

Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys
Police and Crime Commissioner

Mae’r holl argymhellion uchod wedi’u derbyn gan y Prif Gwnstabl ac wedi’u pennu i arweinwyr Heddlu i’w datblygu. Bydd fy swyddfa’n ceisio diweddariad gan Heddlu Dyfed-Powys yn 2026 i geisio sicrwydd eu bod nhw i gyd wedi’u gweithredu fel y cynlluniwyd.

Rwy’n ddiolchgar am i’r argymhellion hyn gael eu cyhoeddi. Bydd fy nhîm a minnau’n parhau i weithio’n agos gyda chynrychiolwyr Heddlu Dyfed-Powys i sicrhau y gweithredir ar yr holl ddysgu perthnasol o fewnwelediadau a gynhyrchir drwy weithgarwch AHGTAEF i wella’r gwasanaeth plismona ar gyfer trigolion ardal Dyfed-Powys.